**Cyngor Tref Llangollen Town Council**

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2021.

Minutes of the Council Meeting held on 20 April 2021.

| | | |
|---|---|---|
| | **Yn bresennol:** Y Cyng Baker, Cheminais (Maer y Dref), Carol, Davies, Grindley, Haddy, Keddie, Lovelock, Lube, Palmer a Mile. | **Present:** Cllrs Baker, Cheminais (Town Mayor), Carol, Davies, Grindley, Haddy, Keddie, Lovelock, Lube, Palmer and Mile. |
| | **Mynychu**: G. Thomas (Clerc y Dref).<br>17 aelod o'r cyhoedd. | **In attendance:** G. Thomas (Town Clerk).<br>17 members of the public. |
| **C/84/21.** | **Cyhoeddiadau Maer y Dref.**<br>Mynegodd Maer y Dref dristwch dros y newyddion am farwolaeth Ei Uchelder Brenhinol, y Tywysog Philip ac estynnodd gydymdeimlad dwysaf Cyngor y Dref a thrigolion Llangollen at holl aelodau'r Teulu Brenhinol yn ystod y cyfnod hwn o alar cenedlaethol.<br><br>Dywedodd Maer y Dref y bu ef, ynghyd â chyn-Faer y Dref, yn bresennol pan blannwyd y goeden gyntaf yn y berllan gymunedol ym Mhengwern. | **Mayors Announcements**<br>The Town Mayor expressed his regret over the sad news of the death of His Royal Highness, The Prince Philip and extend the Town Council, and residents, deepest sympathy to all members of the Royal Family during this period of national grief.<br><br>The Town Mayor reported that he, along with the former Town Mayor, had been present at the planting of the first tree in the community orchard at Pengwern. |
| **C/85/21.** | **Datganiadau gan y cyhoedd.**<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda. | **Statements from the public.**<br>There were no matters considered under this agenda item. |
| **C/86/21.** | **Cyflwyniadau.**<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda | **Presentations.**<br>There were no matters considered under this agenda item. |
| **C/87/21.** | **Datganiadau gan Gynghorwyr Sir.**<br>Derbyniwyd a nodwyd datganiad gan y Cynghorydd Sir, y Cynghorydd Timms gan yr aelodau. | **Statements from County Councillors.**<br>Members received and noted the statement from County Cllr Timms. |
| **C/88/21.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**<br>Dim | **Apologies for Absence.**<br>None. |
| **C/89/21.** | **Datganiadau o Fuddiant.**<br>Dim. | **Declaration of Interest.**<br>None. |
| **C/90/21** | **Cofnodion.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a derbyniwyd awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi | **Minutes**<br>It was proposed, seconded, and resolved that the Chairman be authorised to sign |

cofnodion Cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.
Cytunodd pawb.

the minutes of the Town Council Meeting held on 16 March 2021 as a correct record.
All agreed.

**C/91/21 Adroddiadau Ariannol.** **Financial Reports.**

a) **Taliadau Awdurdodedig.** **Authorised Payments.**

Cyflwynwyd taliadau Mis Ebrill (isod) i'r cyfarfod.

The payments for April (detailed below) were presented to the meeting

| Cyflenwr/Supplier | Cyf/Ref | Gros/Gross | TAW/VAT | Net |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau Bil/Bill Payments** | | | | |
| Staff | 1 | £2,768.64 | £0.00 | £2,768.64 |
| CThEM/HMRC | 2 | £1,134.63 | £0.00 | £1,134.63 |
| Cathedral Leasing Limited | 3 | £748.00 | £124.00 | £624.00 |
| B Jones | 4 | £75.00 | £0.00 | £75.00 |
| Lilly Rose Interiors | 5 | £39.00 | £0.00 | £39.00 |
| Morgans Decorators | 6 | £106.56 | £17.76 | £88.80 |
| One Voice Wales | 7 | £648.00 | £0.00 | £648.00 |
| Rawsons Digital | 8 | 58.61 | 9.77 | 48.84 |
| G Roberts | 9 | £1,120.00 | £0.00 | £1,120.00 |
| Watkin and Williams | 10 | £55.88 | £9.31 | £46.57 |
| **Taliadau Ar-lein/Online Payments** | | | | |
| Giff Gaff | | £6.00 | £1.00 | £5.00 |
| Amazon | | £57.99 | £6.48 | £51.51 |
| ACS Technology | | £133.00 | £0.00 | £133.00 |
| British Telecom | | £114.88 | £19.14 | £95.74 |
| CS Ddinbych / Denbighshire CC | | £154.40 | £0.00 | £154.40 |
| Nwy Prydain / British Gas 6667 | | £39.75 | £1.89 | £37.86 |
| Nwy Prydain / British Gas 6668 | | 10.1 | £0.48 | 9.62 |
| Nwy Prydain / British Gas 6669 | | 58.68 | £5.29 | 53.39 |
| Nwy Prydain / British Gas 1539 | | £11.32 | £0.58 | £10.74 |
| NEST | | £240.08 | £0.00 | £240.08 |
| S Johnston | | £70.00 | £0.00 | £70.00 |

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn y taliadau.
Cytunodd pawb.

It was proposed, seconded, and resolved that the payments be approved.
All agreed.

b) **Datganiadau Ariannol.** **Financial Statements.**

Cynigiwyd, eiliwyd a derbyniwyd bod y datganiad ariannol ar gyfer Mis Ebrill wedi'i dderbyn a'i nodi.
Cytunodd pawb.

It was proposed, seconded, and resolved that the financial statement for April was received and noted.
All agreed.

c) **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.**
Nododd yr aelodau y cynnydd ar y ffurflen derfynol.
Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd y dylid cyflwyno'r ffurflen i'r archwilydd mewnol i'w harchwilio.
Cytunodd pawb.

**Annual Return for the year ended 31 March 2021.**
Members noted to the progress on the return.
It was proposed, seconded, and resolved that the return should be presented to the internal auditor for examination.
All agreed.

**C/92/21** **Ceisiadau Cynllunio**.
**03/2020/0973**
**3 Cerrig y Llan, Stryd Berwyn.**
Codi estyniad ochr deulawr, balconi ar y llawr gwaelod i'r drychiad cefn dros yr afon, a gwaith cysylltiedig.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.
Cytunodd pawb.

**Planning Applications.**
**03/2020/0973 3 Cerrig Y Llan Berwyn Street.**
Erection of two storey side extension, ground floor balcony to rear elevation over river, and associated works.
It was proposed, seconded, and resolved that no objections be raised in relation to this application.
All agreed.

**03/2021/0310 Cam or Fechan Maesmawr Road.**
Newid defnydd ac addasiadau i ran o'r llawr gwaelod i ffurfio un uned llety gwyliau hunangynhwysol.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.
Cytunodd pawb.

**03/2021/0310 Cam or Fechan Maesmawr Road.**
Change of use and alterations to part of ground floor to form one self-contained holiday accommodation unit**.**
It was proposed, seconded, and resolved that no objections be raised in relation to this application.
All agreed.

**03/2021/0359 2 Dolafon Villas Abbey Road.**
Adeiladu grisiau mynediad i'r seler o flaen yr eiddo a gwaith cysylltiedig.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.
Cytunodd pawb.

**03/2021/0359 2 Dolafon Villas Abbey Road.**
Formation of access steps to the cellar from the front of the property and associated works.
It was proposed, seconded, and resolved that no objections be raised in relation to this application.
All agreed.

**03/2021/0370 Maes Helyg, Llangollen.**
**Gwaith ar goed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed Cyn Gyngor Dosbarth Glyndwr 1990/3 G142.**
Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd bod y gwaith ar y goeden yn angenrheidiol.

**03/2021/0370 Maes Helyg, Llangollen.**
**Works to trees subject to Former Glyndwr District Council.**
**Tree Preservation Order 1990/3 G142,**
It was proposed, seconded, and resolved that that the tree works were necessary. However, having declared a climate and

Fodd bynnag, ar ôl datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol, mae Cyngor y Dref yn gofyn i'r datblygwr ystyried plannu coeden newydd, i wneud iawn am golli'r sycamorwydden, er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn y datblygiad.
Cytunodd pawb.

ecological emergency the Town Council request the developer to consider planting a replacement tree, to compensate for the loss of the sycamore, in order to preserve biodiversity within the development.
All agreed.

**C/93/21 Tystysgrifau Penderfyniad.**
Nododd yr Aelodau'r tystysgrifau penderfyniad gan Adran Gynllunio Cyngor Sir Dinbych a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

**03/2021/0071 Maytree, Fron Bache.**
Codi estyniad ochr un llawr.
Penderfyniad: GR/REF

**Certificates of Decision.**
Members noted the certificates of decision received from Denbighshire County Council Planning Department received since the last meeting.

**03/2021/0071 Maytree, Fron Bache.**
Erection of single storey side extension
Decision: GR/REF.

**C/94/21 Gohebiaeth Cynllunio.**
Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda.

**Planning Correspondence.**
There were no matters considered under this agenda item.

**C/95/21 Adroddiadau Clerc y Dref**

**(a)** Cynrychiolwyr Ieuenctid.
Ystyriodd yr aelodau adroddiad ar benodi Cynrychiolwyr Ieuenctid.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylid rhoi cyfle i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad yn para pum munud i'r Aelodau cyn Cyfarfod Blynyddol Cyngor y Dref ym mis Mai, ac yna byddai pleidlais gan yr Aelodau.
Cytunodd pawb.

**(b)** Pwyllgor Cittaslow.
Ystyriodd yr aelodau argymhellion gan Bwyllgor Cittaslow.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod y Pwyllgor: -

a) yn cynnal cyfres arall o weminarau yn yr hydref ac yn sefydlu grŵp tasg a gorffen i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.
b) yn ystyried mecanweithiau priodol i fwrw ymlaen â rhai o'r materion a nodwyd yn ystod y gyfres ddiwethaf o

**Town Clerk Reports.**

**(a)** Youth Representatives.
Members considered a report on the appointment of Youth Representatives.
It was proposed, seconded, and resolved that each candidate be afford the opportunity to make a five minute presentation to Members prior to the Town Council's Annual Meeting in May, followed by a Member ballot.
All agreed.

**(b)** Cittaslow Committee.
Members considered recommendations from the Cittaslow Committee.
It was proposed, seconded, and resolved that the Committee: -

a) undertakes a further series of webinars in the autumn and establishes a task and finish group to oversee their implementation.
b) considers appropriate mechanisms to take forward some of the issues

weminarau.

c) yn cymryd cyfrifoldeb am gynnwys, cyhoeddi a dosbarthu cylchlythyrau.

Cytunodd pawb.

identified during the last series of webinars.

c) takes over the responsibility for the content, publication and distribution of a newsletters.

All agreed.

**(c)** Cynllun drafft ar gyfer gweithredu argyfwng hinsawdd ac ecolegol.
Trafododd yr aelodau'r cynllun drafft.

Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd bod Cyngor y Dref yn cymeradwyo'r cynllun drafft ar gyfer gweithredu.
Cytunodd pawb.

Climate and ecological emergency draft action plan.
Members considered the draft action plan.
It was proposed, seconded, and resolved that the Town Council endorses the draft action plan.
All agreed.

**(d)** Cynllun rheoli coronafirws: lefelau rhybudd yng Nghymru.
Trafododd yr aelodau adroddiad ar fesurau adfer o'r pandemig.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod Cyngor y Dref yn ailddatgan: -

a) asesiad risg a gymeradwywyd gan Gyngor y Dref ar 15 Medi 2020.
b) bod angen parhau i gyfarfod o bell nes bod y rheoliadau'n caniatáu cyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
c) trefniadau gweithio staff Cyngor y Dref a mynediad i swyddfeydd y Cyngor.
d) agoriad rheoledig Neuadd y Dref i grwpiau defnyddwyr fel y nodwyd yn yr asesiad risg ac yn unol â'r lefelau rhybuddio cenedlaethol sydd mewn grym,
ac
e) yn dirprwyo'r cyfrifoldeb i godi cyfyngiadau o ganlyniad i newid lefelau rhybudd cenedlaethol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â Maer y Dref er mwyn caniatáu ymateb cyflym i amgylchiadau sy'n newid.

Cytunodd pawb.

Coronavirus control plan: alert levels in Wales.
Members considered a report on recovery measures from the pandemic.
It was proposed, seconded, and resolved that the Town Council reaffirms the: -

a) risk assessment approved by the Town Council on the 15 September 2020.
b) need to meet remotely until the regulations allow face to face meetings and in compliance with the Section 47 Local Government and Elections (Wales) Act 2021.
c) working arrangements of Town Council's staff and access to Town Council offices.
d) controlled opening of the Town Hall to user groups as identified by the risk assessment and in accordance with the national alert levels in force,
and
e) delegates the responsibility to lifting restrictions as a result of changing national alert levels to the Town Clerk in consultation with the Town Mayor to allow rapid response to changing circumstances.

All agreed.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C/97/21** | | **Gohebiaeth.**<br>Derbyniwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol gan yr Aelodau. | **Correspondence.**<br>Members considered and received the following correspondence. |
| | a) | **Tîm Plismona Cymdogaeth.**<br>Darparwyd y manylion cyswllt. | **Neighborhood Policing Team.**<br>Contact details provided. |
| | | **Cam bweithredu:** Nodwyd | **Action:** Noted |
| | b) | **Beiciau Drosi**<br>Ystyriodd yr aelodau gynnig llythyr o gefnogaeth i Beiciau Drosi ar gyfer cais i Gronfa Fferm Wynt Clocaenog. | **Drosi Bikes**<br>Members considered offering a letter of support for an application to the Clocaenog Wind Farm Fund, by Drosi Bikes. |
| | | **Cam gweithredu:** Cytunwyd y dylid cynnig llythyr o gefnogaeth. | **Action:** It was agreed that an offer of letter of support be provided. |
| | | Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd cefnogi'r camau gweithredu a awgrymwyd.<br>Cytunodd pawb. | It was proposed, seconded, and resolved to support the suggested actions.<br>All agreed. |
| **C/98/21** | | **Adroddiadau a gyflwynwyd i Gyngor y Dref.** | **Reports submitted to the Town Council.** |
| | (a) | Aelodau sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff neu sefydliadau allanol. | Members representing the Council on outside bodies or organisations. |
| | (i) | Dywedodd y Cynghorydd Grindley yn y cyfarfod diwethaf fod Elusen John Matthews wedi cefnogi 19 o ymgeiswyr ac wedi rhoi £10,540 o gymorth grant. Anogodd y Cynghorydd Grindley ei gyd-aelodau unwaith eto i adael i unigolion wybod am botensial y gronfa hon. | Cllr Grindley advised the last meeting that John Matthews Charity had supported 19 applicants and granted £10,540 of grant assistance. Cllr Grindley again urged fellow Members to advise individuals of the potential of this fund |
| | (ii) | Rhoddodd y Cynghorydd Carol ddiweddariad ar y prosiect Naked Takeaway nad oedd wedi nodi partneriaid busnes posibl yn Llangollen eto. | Cllr Carol provided and update on the Naked Takeaway project which was yet to identify potential business partners in Llangollen. |
| | (iii) | Cyflwynodd y Cynghorydd Davies adroddiad ar y diweddaraf ynglŷn y cyfyngiad pwysau amgylcheddol ar Bont Llangollen. | Cllr Davies reported on progress with the environmental weight restriction for Llangollen Bridge. |
| **C/99/21** | | **Rhybuddion o Gynnig**<br>Ystyriodd yr aelodau Rybudd o Gynnig yn | **Notices of Motion.**<br>Members considered a Notice of Motion |

enw'r Cynghorydd Stuart Davies, - sef bod Cyngor Tref Llangollen yn ffurfio grŵp tasg a gorffen i ymchwilio i sefydlu generadur pŵer hydro bychan ar Afon Dyfrdwy, i brofi'r cysyniad, gyda'r bwriad yn y pen draw o sefydlu CBC Green Dee Power i gynhyrchu pŵer ar gyfer gwefru cerbydau trydan ar y stryd ac i werthu trydan i'r dref.
Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd mabwysiadu'r cynnig.
Cytunodd pawb.

standing in the name of Councillor Stuart Davies that Llangollen Town Council forms a task and finish group to investigate the setting up of a small hydro power generator on the River Dee, to prove the concept, with a view to eventually setting up the Green Dee Power CIC to produce power for on-street charging of electric vehicles and to sell electricity to the town.
Following debate, it was proposed, seconded, and resolved to adopt the motion.
All agreed.

**Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh.**

**There being no further items the meeting closed at 7.55pm.**